## 5. ARWEINYDDIAETH GWE - CYFNOD TROSIANNOL

Croesawyd Rhys Williams (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Dysgu Proffesiynol) ac Euros Davies (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion).

Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu trefniadau ac amserlen gweithredu cyfnod trosiannol GwE mewn ymateb i ddatganiad y cyn Weinidog dros Addysg a'r Gymraeg ar 31 Ionawr 2024, i wneud newidiadau sylfaenol i haen ganol y system addysg yng Nghymru. Ar y 1af o Awst 2024 cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor y cynnig i leihau Uwch Dîm Rheoli GwE o bump i ddau hyd ddiwedd Mawrth 2025, ac o ganlyniad, roedd rolau presennol y Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Uwch Arweinydd Uwchradd wedi eu tynnu oddi ar y strwythur ers 1 Medi, 2024. Adroddwyd bod Rhys Williams (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Dysgu Proffesiynol) ac Euros Davies (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion) – y ddau uwch arweinydd sy'n weddill, wedi cytuno i arwain, rheoli a sicrhau ansawdd y swyddogaeth graidd gwella ysgolion a'r dysgu proffesiynol a chymorth i ysgolion hyd at ddiwedd y cyfnod trosiannol.

Tynnwyd sylw at y prif faterion i'w hystyried megis ffrydiau gwaith y gwasanaeth hyd at ddiwedd y cyfnod trosiannol oedd yn cynnwys, rheoli risgiau a sicrhau ansawdd o ran swyddogaeth graidd GwE o, gefnogi ysgolion ac awdurdodau i gyflawni eu rolau statudol; cefnogi'r Bwrdd Trosiannol i sefydlu prosesau a strwythurau pwrpasol er mwyn ymateb yn llwyddiannus i ofynion adolygiad yr haen ganol; cydweithio'n agos gyda'r Bwrdd Trosiannol, y Rheolwr Prosiect ac Adnoddau Dynol i ddarparu a rhannu'r wybodaeth berthnasol.

Nodwyd, er mwyn sicrhau gweithredu cyfnod trosiannol llwyddiannus, byddai'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid yn cyfathrebu yn gyson ac agored, a lle bydd diffyg capasiti wedi amlygu, bydd angen trafod datrysiadau posib gyda'r Awdurdod perthnasol. Ategwyd y byddai hyn yn gymorth i hybu morâl, llesiant a chymhelliant staff drwy'r cyfnod ansicr yma.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r staff hynny oedd eisoes wedi gadael GwE, i'r Cyn Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Uwch Arweinydd Uwchradd GwE am eu gwaith a'u cefnogaeth i'r Cydbwyllgor ac i Rhys Williams ac Euros Davies am gamu i mewn i'r bwlch o dan amgylchiadau heriol ac anodd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd;

- Pryder na fydd cyllid digonol i wireddu'r gwaith a bydd gofyn defnyddio reserfau.
- Angen i Fwrdd Trosiannol amlygu sefyllfa bresennol GwE a'r diffyg cyllideb i Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru gan fod y sefyllfa yn deillio o benderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau sylfaenol i haen ganol y system addysg yng Nghymru.
- Nad oedd gwybodaeth ddigonol am y sefyllfa – bod y Cydbwyllgor angen gwell dealltwriaeth o'r goblygiadau staffio a chyfrifoldebau cytundebol.
- Bod angen trefnu cyfarfod brys rhwng y Bwrdd Trosiannol, y Cydbwyllgor a'r Rheolwr Prosiect i drafod y sefyllfa.

**PENDERFYNWYD:**

- Derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad.
- Bod angen cynnal cyfarfod brys rhwng y Bwrdd Trosiannol, y Cydbwyllgor a'r Rheolwr Prosiect i drafod sefyllfa bresennol GwE.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a pham y gwelir gorwariant o dan y pennawd ‘Gweithwyr’ a hynny o ystyried bod 17 aelod o staff eisoes wedi ymadael, nodwyd eto y byddai’r darlun yn dod yn gliriach yn y misoedd nesaf gyda'r gyllideb yn debygol o arwain at dan-wariant bychan. Mewn ymateb i gwestiwn ategol os oedd y cyfanswm yn cynnwys costau ailstrwythuro a darpariaeth cost, nodwyd bod hyn wedi ei ystyried.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau;

- Er yn derbyn bod y gyllideb mwy neu lai ar darged, bod angen gwell dealltwriaeth o gostau staff, costau ailstrwythuro, hawliau gwyliau a’r goblygiadau ariannol sydd i hyn
- Bod angen mwy o wybodaeth i ddeall y darlun yn llawn
- Ciplun sydd yma – bydd yn newid gyda threfniadau ailstrwythuro

**PENDERFYNWYD:**

- Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.
- Bod cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng aelodau’r Cydbwyllgor a’r Bwrdd Trosiannol i rannu gwybodaeth a manylion ychwanegol e.e. costau staff, costau ailstrwythuro

## 10. COFRESTR RISG GwE

Cyflwynwyd y gofrestr risg gan Rhys Williams (Pennaeth Gwasanaeth GwE - Dysgu Proffesiynol), oedd yn nodi mai pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli’r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i’w lliniaru. Byddai rheoli'r risgiau'n effeithiol yn galluogi GwE i gefnogi'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau strategol, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, a chyflawni’r deilliannau yn ôl y bwriad. Nodwyd bod y ddogfen yn ddogfen fyw sy’n cael ei hadolygu’n gyson a’r risgiau wedi cael eu hadolygu yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig i haen ganol y system addysg yng Nghymru a’r cyfnod trosiannol o wasanaeth Rhanbarthol i'r Awdurdodau Lleol.

Tynnwyd sylw at y Goblygiadau Ariannol gan fynegi nad yw'n glir beth fydd cost y newid sylweddol mewn polisi Llywodraeth Cymru mewn cyfnod anodd yn gyllidebol ac hefyd y Goblygiadau Personél lle mae morâl a chymhelliant staff GwE yn hynod isel. Adroddwyd nad oedd eglurder eto o ran swyddi amgen i staff gwella ysgolion wedi mis Mawrth 2025 ac y bydd llai o secondiadau a diswyddiadau yn effeithio ar batrwm y tîm gan achosi anghydbwysedd yn y cymorth i'r gwahanol sectorau.

Wrth drafod y risgiau yn unigol, nodwyd;

**Cyllidol** - bod Bwrdd Trosiannol bellach wedi ei sefydlu gyda Rheolwr Prosiect wedi ei benodi ac yn arwain ar y gwaith. Bydd y Bwrdd Trosiannol yn arwain at sicrhau bod amserlen glir yn ei le ac yn adnabod sefyllfa’r staff.

**Adnoddau Dynol** –bod cyfarfodydd tîm wedi eu trefnu i sicrhau bod gwybodaeth am y cyfnod trosiannol yn cael ei rannu ar bob lefel yn gyson ynghyd â'r opsiynau sydd ar gael o ran cyflogaeth yn y dyfodol.

**Llywodraethiant** – bod angen cylch gorchwyl sydd yn gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau’r Bwrdd Trosiannol a’r Cydbwyllgor.

Gofynnwyd i’r Cydbwyllgor adolygu a chymeradwyo cynnwys y gofrestr ynghyd â phenderfynu os oedd unrhyw risgiau y dymuna'r Cydbwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau;

- Pryder bod y risgiau wedi symud o goch i oren. Yn derbyn bod Bwrdd Trosiannol wedi ei ffurfio ond mae'r amserlen yn parhau yn anhysbys.
- Bod angen cyflwyno diweddariadau misol fydd yn hysbysu Cyd-bwyllgor GwE o gynlluniau / addasiadau penodol, yn arbennig materion adnoddau dynol.
- Bod hi'n rhy fuan ym mhroses y cyfnod trosiannol i addasu'r risgiau i oren – mae pethau yn cymryd amser, yn enwedig diswyddiadau.
- Yn cynnig cadw'r risgiau yn goch. Er yn deall bod y sefyllfa yn anodd a bod materion yn datblygu, nid yw'r wybodaeth wrth law a gormod o gwestiynau heb ateb iddynt.

Cynigwyd ac eiliwyd nodi bod yr holl risgiau yn parhau yn risgiau UCHEL / COCH.

**PENDERFYNWYD:**

- Derbyn a chymeradwyo'r gofrestr risg yn ddarostyngedig i nodi'r holl risgiau yn risgiau UCHEL (yn hytrach na CHANOLIG / OREN).
  **Rheswm:** gyda diffyg amserlen a gwybodaeth, ei bod yn rhy gynnar yn y broses i ragfynegi yn wahanol.
- Sicrhau fod gwybodaeth o ran cynlluniau penodol a phrosesau trosglwyddo yn cael eu cyfathrebu yn gyson (misol) gyda'r Cydbwyllgor**.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 11:30

______________________________

**CADEIRYDD**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **(1,116)** | **14,668** | **13,552** | **1,609** | **995** | **3,028** | **5,632** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 26,324 | 0 | 26,324 | 29,888 | 0 | 0 | 29,888 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (22,876) | (22,876) | 0 | (23,764) | 0 | (23,764) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Effaith y terfyn ased | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **26,324** | **(22,876)** | **3,448** | **29,888** | **(23,764)** | **0** | **6,124** |

Sylwch fod gwerth teg asedau'r cyflogwr o ran cynllun oddeutu 1% o gyfanswm y Gronfa.

Amcangyfrifir bod gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir yn cynnwys oddeutu £13,774,000, £1,773,000, £8,217,000 mewn perthynas ag aelodau staff, pensiynwyr a phensiynwyr gohiriedig yn y drefn honno ar 31 Mawrth 2024.

* Mae cost cyfredol y gwasanaeth yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

**Mae'r rhwymedigaethau heb eu hariannu yn cynnwys £0 mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan CPLIL a £0 mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan Athrawon.

***Mae'r profiad arall ar rwymedigaethau yn cynnwys lwfans o £683,000 ar gyfer effaith gorchymyn cynyddu pensiwn Ebrill 2024.

^ Nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw addasiad asedau net sydd i'w weithredu i'r sefyllfa asedau net terfynol ar 31 Mawrth 2024 ar adeg paratoi'r fersiwn hon o'r Canlyniadau Trefnlen.

# Cipolwg ar eich archwiliad

## Barnau archwilio

Rydym yn bwriadu rhoi barn archwilio ddiamod.

Nid oes gennym unrhyw beth i adrodd arno dan yr adrannau eraill o'm hadroddiad h.y. y rhai sy'n ymwneud â busnes gweithredol; gwybodaeth arall; materion eraill; neu faterion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad.

## Materion arwyddocaol

Nid oes camddatganiadau na materion arwyddocaol i'w nodi.

## Perthnasedd

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | £356,000 |
| Trothwy adrodd ('dibwys') | £17,000 |
| Meysydd o ddiddordeb penodol: | |
| • Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol - uwch swyddogion | £1,000 |
| • Datgeliadau trydydd parti - unigolion | £10,000 |

# Atodiad 3

## Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiad canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

| Gwerth y cywiriad | Meysydd yn y cyfrifon | Esboniad |
|---|---|---|
| Gwelliannau naratif a diweddariad i'r nifer gweithwyr fesul band cyflog. | **Nodyn 17bTaliadau i Swyddogion**<br>• Ychwanegwyd troednodyn i roi eglurder ar y ffordd y mae dechreuwyr a phobl sy'n gadael yn cael eu trin.<br>• Ychwanegwyd troednodyn i roi eglurder ar yr amcangyfrif o ddyfarniad cyflog a gynhwyswyd yn y cyflog adroddwyd i staff ar gyfer 2022-23.<br>• Mae nifer y gweithwyr adroddir ar gyfer bandiau 2023-24 wedi'u diwygio i ddileu effaith y dyfarniad cyflog sy'n berthnasol i 2022-23. | Rhoi eglurder i ddarllenwyr y cyfrifon ar taliadau i swyddogion. |
| Gwelliannau naratif | **Nodyn 20 Partïon Cysylltiedig**<br>Mae'r tabl mewn perthynas â thrafodion partïon cysylltiedig yr Aelodau wedi'i ddileu gan nad oedd yn ofynnol i datgelu'r berthynas yn unol â'r Cod Ymarfer.<br>Ychwanegwyd brawddeg i gadarnhau nad oes unrhyw drafodion mewn perthynas â phartïon cysylltiedig yr aelodau. | Cydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA 2023-24. |
| Bu hefyd nifer fach o fân ddiwygiadau naratif o ganlyniad i'n gwaith. | | |

- Gwell dealltwriaeth o wyddoniaeth fel testun trawsgwricwlaidd i'r holl staff. Gwell ymwybyddiaeth o wyddoniaeth mewn rolau STEM ac annog sgiliau gwyddoniaeth ar gyfer pawb. Cysondeb o ran cyflwyno sgiliau a thestunau fel bod y mathau o ymholiad i gyd yn cael eu datblygu yn briodol ar draws camau cynnydd.
- Rwyf wedi newid yn llwyr sut rwy'n addysgu Gwyddoniaeth - dim dibynnu mwyach ar gynlluniau sydd wedi dyddio. Rwy'n hyderus i addysgu testunau/prosiectau sy'n gyforiog o sgiliau trawsgwricwlaidd.
- Cwrs 3 diwrnod gwych lle cyflwynwyd cymaint o wybodaeth, nid yn unig am wyddoniaeth a thechnoleg, ond am bob MDaPh ar draws y cwricwlwm.

Yn sgil llwyddiant y cwrs hwn, bydd fformat tebyg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cwrs Cynllunio Thema a Sgiliau Trawsgwricwlaidd yn CA2, dros 2 ddiwrnod.

**'Datblygu'r Hyfedreddau Mathemategol' rhaglen 2-ddiwrnod i athrawon 8-14**
Mae'r rhaglen 2-ddiwrnod hon wedi'i chynllunio a rhannwyd gwybodaeth ag ysgolion y rhanbarth. Bydd Diwrnod 1 yn digwydd mewn 5 lleoliad gwahanol ar draws y rhanbarth yn ystod w/c 14 Hydref 2024, a bydd Diwrnod 2 yn dilyn patrwm tebyg yn ystod w/c 3 Chwefror 2025.

Hyd yma, mae 94 ymarferwr wedi cofrestru. Dyma'r deilliannau disgwyliedig:
- cael dealltwriaeth gynhwysfawr o 5 hyfedredd mathemategol y Cwricwlwm i Gymru.
- cael strategaethau i gynllunio cynllun gwaith sy'n meithrin datblygiad hyfedreddau mathemategol ymhlith dysgwyr o fewn cynllunio cwricwlwm.
- edrych ar ddulliau o ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol mewn mathemateg, yn cynnwys defnyddio deunyddiau diriaethol, cynrychiolíadau gweledol a chyd-destunau byw.
- cael dealltwriaeth ddyfnach o lythrennedd disgyblaethol mewn mathemateg, gyda ffocws penodol ar lafaredd ac edrych ar dechnegau i feithrin trafodaethau a chyfathrebu mathemategol ymhlith dysgwyr.
- datblygu dealltwriaeth ddyfnach o gwestiynu effeithiol mewn mathemateg a syniadau ymarferol ar gyfer datblygu rhesymu rhesymegol a datrys problemau.

**Gweithdy Addysg Ariannol i athrawon 8-14**
- Cynhelir y gweithdy hwn mewn 6 lleoliad/sesiwn gwahanol yn ystod w/c 20 Ionawr 2025.

**Cynllunio'n raddol ar gyfer sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol o fewn dosbarth 8-11.**
Mae'r rhaglen 2-ddiwrnod hon wedi'i chynllunio a rhannwyd gwybodaeth ag ysgolion y rhanbarth. Bydd Diwrnod 1 yn digwydd mewn 5 lleoliad gwahanol ar draws y rhanbarth ar ôl hanner tymor, a bydd Diwrnod 2 yn dilyn patrwm tebyg yn ystod mis Mawrth 2025.

Mae cofrestru yn dal ar agor, ac mae 88 ymarferwr wedi cofrestru hyd yma. Dyma'r deilliannau disgwyliedig:
- Deall sut i gyfuno sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol i greu profiadau dysgu cyfoethog i bob dysgwr.
- Ymgymryd â chyfleoedd ymarferol i ddatblygu a chymhwyso sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn cyd-destunau dilys a byw.
- Ymestyn profiadau i gyfoethogi gwaith cynllunio'r cwricwlwm.
- Deall ymhellach fanteision a phwysigrwydd dysgu trawsgwricwlaidd.
- Cynyddu ymgysylltiad dysgwyr drwy brofiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon.

**Cyfarfod Rhanbarthol i Arweinwyr Rhifedd Uwchradd**
Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 25 Mehefin, 2024. Daeth 45 i'r cyfarfod o 54 ysgol uwchradd y rhanbarth. Cafwyd cyfraniadau gan Estyn a Chyfoeth Naturiol Cymru a gynhaliodd weithdai yn ystod y dydd. Dyma ddeilliannau pwysig y diwrnod:
- Cael y negeseuon diweddaraf gan Estyn ynghylch datblygu Rhifedd yn effeithiol, ar sail canfyddiadau presennol yng Nghymru.
- Cael syniadau ac adnoddau sy'n gydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru trwy gymryd rhan mewn gweithdy ymarferol dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cael dealltwriaeth ddyfnach o'u rolau wrth yrru a gwella Rhifedd yn eu lleoliadau.
- Defnyddio adnoddau a negeseuon y diwrnod i wella ansawdd dysgu ac addysgu Rhifedd yn eu lleoliadau, a rhannu eu cynnydd yn y cyfarfod rhwydwaith nesaf.
- Cael cyfle i rwydweithio efo arweinwyr Rhifedd eraill y rhanbarth.

Cwblhaodd y rhai oedd yn bresennol ffurflen adborth ar y diwrnod. Nododd 100% fod y diwrnod naill ai'n ddefnyddiol iawn neu'n ddefnyddiol, gyda 63% yn nodi defnyddiol iawn.

**Cyfarfodydd rhwydwaith lleol i Arweinwyr Rhifedd Uwchradd**

Mae 6 cyfarfod rhwydwaith lleol wedi'u cynllunio (ar gyfer w/c 18 Tachwedd) ac mae disgwyl i bron bob ysgol uwchradd fynychu. Bydd y cyfarfodydd hyn yn ddilyniant i gyfarfod rhanbarthol mis Mehefin, yn canolbwyntio ar rannu arferion da a chynnydd. Bydd ffocws hefyd ar edrych yn fanylach ar Rifedd mewn Gwyddoniaeth, ac uwchsgilio arweinwyr Rhifedd ar ddefnyddio'r asesiadau personol yn effeithiol, a fydd yn cynnwys dod yn gyfarwydd â nhw gyda'r adroddiadau newydd ar gael y flwyddyn addysgol hon.

Materion neu risgiau newydd gafodd eu hadnabod yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Capasiti cyfyngedig gyda dim ond 1 YCG Mathemateg a Rhifedd Uwchradd ac 1 Cynradd - mae'r tîm wedi lleihau o 3 YCG i 2, ond nid felly y galw am gefnogaeth bwrpasol, lleol a rhanbarthol.

**Cynnig Proffesiynol Digidol GwE**

Datblygwyd ystod eang o gyrsiau yn dilyn adborth gan ymarferwyr. Gyda phwysau ariannol o du ysgolion rhoddwyd mwy o ffocws ar adnabod cyfleoedd i gael y gwerth mwyaf am arian o'r cynnig proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys parhau efo llwyddiant cwrs peilot y llynedd, sef cwrs sgiliau trawsgwricwlaidd ar gyfleoedd digidol yn cefnogi efo cyflwyno sgiliau llythrennedd. Wrth ymateb i adborth gan ymarferwyr, gwelwyd bod y cyrsiau ymarferol hyn yn cynnig cyd-destun i sgiliau digidol er mwyn cefnogi elfen arall, fel llafaredd. Er mwyn bodloni'r heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu o ran yr angen parhaus am DPP, ond hefyd capasiti cyfyngedig i ryddhau staff, rydym wedi defnyddio'r model hwn i ddatblygu'r rhan fwyaf o'n cyrsiau eleni. Mae 51 cwrs hyfforddiant DPP wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ac rydym hefyd wedi cynnwys hyfforddiant ar agenda'r rhwydweithiau rhanbarthol, gyda'r nod o sicrhau bod negeseuon allweddol yn cyrraedd ysgolion.

Hyd yma, mae 735 aelod staff ar draws y rhanbarth wedi cofrestru ar hyfforddiant o'n Cynnig Dysgu Proffesiynol (DP). Mae 652 ar gyfer cyrsiau hyfforddiant digidol penodol, gyda 83 wedi cofrestru i fynychu'r Rhwydweithiau Digidol Uwchradd. Mae 37% wedi'u cwblhau hyd yma, gyda'r gweddill eto i ddigwydd. Maent ar gael ar gynnig DP GwE i ysgolion gofrestru arnynt.

Mae 3 map cynnydd ychwanegol wedi'u creu trwy gyfrwng Partneriaethau rhanbarthol ar draws y consortia. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol gan ymarferwyr. Mae uwch arweinwyr mewn ysgolion hefyd wedi canmol yr adnoddau. Maent yn cynnig arweiniad clir er mwyn sicrhau bod staff yn cynllunio ar gyfer cynnydd yn y sgiliau trawsgwricwlaidd.

Mae'r deilliannau yn dechrau dod i'r amlwg mewn ysgolion, 18 mis wedi lansio'r strategaeth chwe cham. Mae sôn yn adroddiadau arolygu nifer o ysgolion sydd wedi cael arolygiad Estyn yn ddiweddar bod strategaethau clir mewn lle ar gyfer sgiliau trawsgwricwlaidd. Oherwydd llwyddiant y strategaeth chwe cham, mae'r ffocws yn ein Rhwydweithiau a'n cynnig DP wedi newid y flwyddyn addysgol hon i sicrhau bod ymarferwyr yn deall beth yw cynllunio ar gyfer cynnydd a sut mae hyn yn edrych yng nghyd-destun gwaith Digidol.

**Cynllunio a gwerthuso strategol yng nghyd-destun sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws y cwricwlwm (ar gyfer aelodau UDA mewn ysgolion uwchradd).**

Cynhaliwyd un diwrnod o hyfforddiant ym mis Medi ar gyfer aelodau Uwch Dimau Arwain ysgolion uwchradd sydd yn arwain ar y sgiliau gyda'r ffocws ar 'Cynllunio yn strategol ar gyfer cynnydd a dilyniant yn y sgiliau trawsgwricwlaidd'. Roedd y niferoedd a fynychodd yr hyfforddiant yn gadarnhaol, gyda chyfanswm o 44 arweinydd ysgol o 33 ysgol uwchradd, 1 UCD a 2 ysgol arbennig wedi mynychu. Rhannwyd y diwrnod yn 4 rhan gan roi trosolwg lefel uchel o ddisgwyliadau traws ysgol mewn perthynas ag arwain yn strategol ar y sgiliau, a rhoi pwyslais wedyn ar gynllunio yn strategol mesul sgil: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Ddigidol.

Cafwyd adborth positif ar ddiwedd y sesiynau gyda sylwadau yn nodi bod gan y mynychwyr well dealltwriaeth o gynllunio ar lefel strategol i ddatblygu'r sgiliau ac i wella safonau mewn sgiliau, ynghyd â sut i arfarnu cynnydd a safonau yn y sgiliau. Nododd sawl un bod ganddynt well dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â gyrru'r sgiliau yn draws ysgol a phwysigrwydd cydweithio ar bob haen o arweinyddiaeth er mwyn sicrhau cynnydd ac effaith.

Roedd y rhan fwyaf wedi gwerthfawrogi'r adnoddau a'r enghreifftiau a rannwyd yn y sesiynau gan nodi hefyd y budd o allu trafod gyda chymheiriaid o ysgolion eraill. Roedd lleiafrif a fynychodd yn newydd i'w rolau o arwain yn strategol ar y Sgiliau a nodwyd ganddynt eu bod wedi dysgu llawer o'r cyflwyniadau a bod yr hyfforddiant wedi eu harfogi i ystyried eu taith o gynllunio cynnydd yn y Sgiliau.

Mae'n bryder nad oedd cynrychiolaeth o bob ysgol uwchradd yn y rhanbarth yn yr hyfforddiant, yn arbennig o ystyried pwysigrwydd yr agenda sgiliau ar lefel genedlaethol a'r gofyn gan ysgolion am gefnogaeth yn y maes. Bydd angen i ysgolion ar draws y rhanbarth rymuso eu cydweithio ysgol i ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau datblygiad yn y maes. Mae'r risgiau ynghlwm wrth hyn yn niferus gyda rhai ysgolion yn gyndyn o ryddhau aelodau staff o'u hysgolion oherwydd diffyg capasiti.

**CYNLLUN BUSNES: IEITHOEDD RHYNGWLADOL (IRh) I'R CYNRADD A'R UWCHRADD**

**Cefnogi ymarferwyr cynradd ac uwchradd i ddarparu ieithoedd rhyngwladol o fewn MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.**

Mae ystod lawn o weithgareddau Dysgu Proffesiynol wedi'u hwyluso ar gyfer ymarferwyr IRh cynradd ac uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyrsiau ar-lein i athrawon ysgolion cynradd ac/neu uwchradd ar Uwchsgilio Iaith : mae 84 athro wedi cofrestru ar hyn o bryd ac yn defnyddio'r cyrsiau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ieithoedd rhyngwladol. Mae'r cwrs ar gyfer dechreuwyr ac mae unigolion yn defnyddio'r gwersi pan yn gyfleus. Mae mynediad heb ei gyfyngu am ddwy flynedd a chyfrifon unigol yn galluogi athrawon prysur i reoli eu hamser a'u llwyth gwaith fel y gwelant orau. Mae hyder i ddysgu ieithoedd yn codi gan fod pob gwers yn cynnwys rhai awgrymiadau addysgegol a thasgau i'w cwblhau yn y dosbarth.
- Institut français- IRh yn y sector cynradd. Cynnydd ac asesu. Ar-lein ar ôl ysgol - cenedlaethol : daeth 8 ysgol, 10 athro i hyfforddiant ar-lein yr Institut français. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn gan y cafwyd gwell dealltwriaeth o gynnydd mewn Ieithoedd Rhyngwladol yn y cynradd a sut i sicrhau dysgu pwrpasol a chadarn.
- Lansio Pecyn Cymorth Llwybrau at Ieithoedd Cymru. Routes Cymru. Prifysgol Bangor. Diwrnod wyneb yn wyneb: cynhaliwyd y Diwrnod Archarwyr Ieithoedd i Flwyddyn 5 ar 17/6/24. Cafwyd presenoldeb da iawn (llawn) a 5 ysgol yn bresennol: 10 athro a 106 disgybl. Rhannwyd a thrafodwyd syniadau i athrawon a myfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu ieithoedd a'u hybu mewn ysgolion. Bu disgyblion yn rhan o weithdai diwylliannol a gweithdai iaith amrywiol. Cafwyd adborth hynod o gadarnhaol gan staff a disgyblion.
- Hyfforddiant Trochi - yn Ffrainc/Sbaen GwE Taith + DBe GwE: bu 28 o athrawon cynradd ac uwchradd ar gwrs wythnos yn Ffrainc a Sbaen. Mae athrawon wedi dechrau datblygu darpariaeth ac arferion ymhellach ar ôl dychwelyd. Bu'r gweithgaredd yn hynod o lwyddiannus a chafwyd adborth cadarnhaol gan bawb. Ymhlith y prif bethau y mae athrawon yn adrodd amdanynt yw hyder, arbenigedd, ymdeimlad o gyfeiriad, brwdfrydedd i addysgu ieithoedd a meddylfryd newydd ar gyfer cynllunio. Mae'r effaith i'w gweld yn barod mewn ysgolion: mae uwch dimau a llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac mae cynlluniau dysgu newydd yn cael eu datblygu i gyd-fynd â'r dysgu newydd gan staff am ddysgu ac addysgu IRh. Mae athrawon wedi rhannu eu profiad â'u cyd-weithwyr a chymuned yr ysgol a byddant yn parhau i wneud hyn â gweddill y rhanbarth yn ein cyfarfodydd rhwydwaith ac mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol eraill.
- Sesiwn DP gyda siaradwyr gwadd: arbenigwyr IRh: Llafaredd a Sanako Connect: Group Talk: Uwchradd, ar-lein: 3/7/24: cafwyd presenoldeb da - 12 ysgol, 15 athro. Cafodd y sesiwn ei recordio a'i rannu â gweddill y rhwydwaith, er gwybodaeth. Roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol. Cafodd y strategaethau a'r model i ddatblygu siaradwyr fwy digymell a hyderus dderbyniad da iawn, ac maent yn hawdd eu defnyddio yn y dosbarth. Rhannwyd adnoddau ymarferol o safon uchel i athrawon eu defnyddio fel rhan o system Sanako, neu fel adnoddau addysgu. Cynhelir sesiwn dilynol wyneb yn wyneb ar 15 Hydref fel rhan o'r cyfarfod rhwydwaith IRh.
- Mae'r sesiynau a ganlyn bellach wedi'u trefnu ac mae cofrestru yn mynd rhagddo:
    - Edrych ar amlieithrwydd ar draws Maes ILlCh - gweithio ar y cyd rhwng IRh, Cymraeg a Saesneg fel pynciau. 13/11/24 @3:45pm. Ar-lein. Gyda gweithgarwch dilynol ym mis Chwefror-Mawrth (i'w gadarnhau).
    - Gwreiddio Ieithoedd yn y cwricwlwm cynradd: hyfforddiant cynradd PowerLanguage. Wyneb yn wyneb. 26/11/24 & 27/1/25

- Cefnogi arferion IRh yn defnyddio technoleg a hyfforddiant Sanako Connect: mae 15 ysgol yn gallu defnyddio'r trwyddedau ar hyn o bryd. Mae'r ysgolion hyn i gyd wedi cael hyfforddiant ac mae rhai wedi cael hyfforddiant unigol pellach. Bydd gweithgarwch dilynol a diweddariadau ar gynnydd ac effaith yn digwydd yn y cyfarfod rhwydwaith IRh ym mis Hydref.
- Cyfarfodydd rhwydwaith tymhorol: rhannu arfer da, Cynllunio creadigol, y dimensiwn Rhyngwladol a Diwylliannol, sgiliau Llafaredd, Cynnydd ac Asesu, Lluosieithrwydd. Cyfarfu'r Rhwydwaith IRh Uwchradd ar 10/06/2024 a chafwyd presenoldeb da iawn gyda 28 ysgol yn bresennol. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn ac roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol. Roedd athrawon yn teimlo wedi'u hysbrydoli a'u bod yn cael cefnogaeth, ac yn gwerthfawrogi cael amser i rwydweithio, rhannu syniadau, a chyflwyno a thrafod arferion. Cafodd fformat y dydd dderbyniad da iawn, a oedd yn cynnwys amser i gyflwyno, cwblhau peth gwaith yn yr ysgol mewn mwy o fanylder, myfyrio ar arferion a datblygu eu gwaith cynllunio ymhellach. Byddai athrawon yn ffafrio fformat tebyg i gyfarfodydd y dyfodol.

**Cefnogi amlieithrwydd a chynyddu niferoedd y dysgwyr sy'n astudio ieithoedd ar bob lefel.**

- Gwledd Iaith: Blwyddyn 8 - gyda Routes Cymru a phartneriaid DBe. Prifysgol Bangor: diwrnod Cynllun Llysgenhadon Iaith Blwyddyn 8: 24/6/24. Cafwyd presenoldeb da iawn (llawn) gyda 11 ysgol a 151 disgybl wedi cofrestru. Bu disgyblion yn rhan o weithdai diwylliannol a gweithdai iaith amrywiol. Cafwyd adborth hynod o gadarnhaol gan staff a disgyblion. Cafodd disgyblion hyfforddiant hefyd ar ddod yn Llysgenhadon Iaith. Roedd hwn yn gyfle gwych i gynnwys llawer yn rhagor o ddisgyblion yn y cynllun nag mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ôl adborth disgyblion roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr, diwrnod i ledu gorwelion, ac maent yn barod yn awr i hyrwyddo ieithoedd yn eu hysgolion a gweithio fel llysgenhadon. Mae bod yn y Brifysgol, mynychu gweithdai mewn darlithfeydd, cyfarfod â myfyrwyr a mynd o gwmpas y safle hefyd wedi codi dyheadau dysgwyr, yn ôl yr adborth.
- Jamborî: Adnodd ysgolion arweiniol gyda fideos o ddisgyblion yn dehongli cân yn yr iaith ryngwladol: rhannwyd yr adnodd hwn â phob ysgol gyda gweithgaredd dilynol i'w gadarnhau.
- Partneriaeth Cymru-Llydaw: Parhau i gefnogi ac arwain ysgolion gyda'u prosiect a'u partneriaethau efo'u hysgolion partner yn Llydaw: mae cyswllt â phob partner yn Llydaw wedi'i gadarnhau. Mae 26 ysgol yn rhanbarth GwE a Llydaw (21 ysgol gynradd a 5 ysgol uwchradd) bellach mewn partneriaethau. Dechreuodd y rhan fwyaf o'r prif brosiectau ym mis Medi i'r mwyafrif o ysgolion. Mae disgyblion y rhan fwyaf o ysgolion wedi gwneud cysylltiad rhithwir cychwynnol yn y misoedd diwethaf. Mae athrawon rhai ysgolion am gysylltu hefyd. Bydd rhai ysgolion yn rhannu eu datblygiadau â'r rhwydwaith yn y sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb ym mis Hydref a Tachwedd. Bydd eraill yn rhannu trwy gyfrwng astudiaeth achos. Rhennir cysylltiadau pellach i ysgolion eraill ddod o hyd bartneriaid dramor yn ein digwyddiadau Dysgu Proffesiynol ym mis Tachwedd.
- Pecyn Cymorth Cynradd Llwybrau at Ieithoedd Cymru: Parhau i hyrwyddo'r adnoddau gydag ysgolion cynradd: parhaus. Mae 22 ysgol yn rhanbarth GwE wedi gofyn am yr adnoddau ac wedi eu defnyddio i gyflwyno IRh yn eu cwricwlwm.

**Ymgysylltu a chymryd rhan**

- Annog ysgolion uwchradd i fod yn rhan o raglen fentora Prifysgol Caerdydd: mae recriwtio ar gyfer y cynllun Mentora ITM wedi dod i ben. Niferodd rhagorol eto eleni - 21 ysgol, a fydd yn rhan o'r cynllun o fis Hydref 2024. Mae rhai ysgolion yn ymuno â'r cynllun am y tro cyntaf eleni, neu wedi penderfynu ailgydio yn y cynllun. Bydd y mentora a'r adrodd gan y tîm mentora ITM yn parhau i gael ei adolygu a'i ddadansoddi er mwyn llywio yn well ein cynnig a'n cymorth i ysgolion y rhanbarth.
- Ariannu ymarferwyr cynradd i gymryd rhan yn rhaglen Athrawon yn Dysgu sut i Addysgu Ieithoedd (TELT) y Brifysgol Agored: mae recriwtio ar gyfer y cwrs TELT wedi dod i ben. Niferoedd rhagorol, gyda 12 athro wedi cofrestru ar y cwrs. Bydd y cwrs yn cychwyn ar 05/10/2024. Ers 2018, mae Dyfodol Byd-eang wedi galluogi 78 athro cynradd i ymestyn eu dysgu proffesiynol a'u harbenigedd ymhellach drwy'r bartneriaeth hon a'r cwrs hwn.

**Cynllunio a chyfathrebu: Cefnogi efo cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn effeithiol**

- Timau cynradd ac uwchradd Dyfodol Byd-eang: arweinwyr ysgol cynradd ac uwchradd i ddarparu gwybodaeth, arwain, cefnogi a rhoi'r cynllun busnes ar waith: bydd y Timau DBe yn cyfarfod yn rheolaidd, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Mae'r 3 arweinydd uwchradd a'r 9 arweinydd cynradd yn helpu arweinydd DBe GwE i roi cefnogaeth i ysgolion a llunio cynllun cymorth a chynnig sy'n berthnasol i staff a disgyblion ac a fydd yn cael effaith. Mae pob ysgol Arweiniol yn rhan o'r amryfal brosiectau ac yn gallu cynnig cyngor ac

arweinid ar lefel ymarferydd i ymarferydd. Mae ymarferwyr eraill yn gwerthfawrogi hyn yn arw, ac yn hoff o roi dulliau yn seiliedig ar dystiolaeth ar waith yn ymarferol, yn ogystal â'r syniadau ysbrydoledig a'r feddylfryd. Ymunodd ysgol arall â'r tîm eleni, sydd wedi dewis BSL fel ei phrif iaith ryngwladol. Byddwn yn cael gwybod rhagor am daith yr ysgol ac am ei phrosesau cynllunio.

- Newyddlen bob hanner tymor a llwyfannau: hysbysu a hyrwyddo'r datblygiadau diweddaraf mewn IRh, cyfleoedd DP a digwyddiadau neu weithgareddau i fyfyrwyr: caiff ysgolion ac athrawon gyfle i gael mynediad at yr wybodaeth a'r cynnig o ystod o sianeli. Mae rhaglen a chynnig Dyfodol Byd-eang yn weledol ac yn cael ei chroesawu.
- Gwefan Google Dyfodol Byd-eang GwE: mae'r wefan yn parhau i gael ei phoblogi gyda datblygiadau diweddar. Bydd ysgolion hefyd yn rhannu eu gwaith mewn cyflwyniadau a wnaed yn ystod y digwyddiadau DP amrywiol. Caiff ysgolion ac athrawon gyfle i gael mynediad at y wefan i ddod o hyd i syniadau ac ysbrydoliaeth i ddatblygu eu cwricwlwm.

**DIWYGIO**

**Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth -** datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i alluogi ysgolion ac UauCD i ddatblygu gweithwyr addysg myfyriol, ymchwilgar a chydweithredol.

**CYNLLUN BUSNES: DYSGU PROFFESIYNOL, YMHOLI AC YMCHWIL A ARWEINIR GAN YSGOLION**

**'Y PROSIECT YMHOLI PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL' (NPEP).**

**Galluogi ysgolion a lleoliadau i fod yn rhan o ymholi, ymchwil ac addysgeg er mwyn datblygu dealltwriaeth a dulliau o gefnogi eu dysgwyr.**

Dechreuodd cylch NPEP 2024-25 ym mis Medi 2024 gyda chyfres o gyfarfodydd gyda'r ysgolion arweiniol a'r ysgolion partner. Mae GwE wedi dyrannu cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion NPEP - i ysgolion arweiniol (16 ysgol) ac ysgolion partner (53 ysgol).

Amlinellwyd yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd grŵp ynghyd â sesiynau cymorth dewisol mewn cyfarfod yn ddiweddar. Bob tymor, bydd pob ysgol arweiniol yn trefnu cyfarfod ar-lein gyda'u hysgolion partner ac un aelod o'r tîm ymchwil i drafod cynnydd ysgolion wrth gynllunio gwaith ymholi. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bwriad sesiwn cyntaf tymor yr hydref yw dechrau crisialu ac adnabod manylion y ffocws ymholi. Trefnwyd cyfres o sesiynau cymorth ar-lein i ysgolion hefyd.

Dyma'r camau nesaf ar gyfer tymor yr hydref:

- Ysgrifennu at bob ysgol yn cadarnhau'r grwpiau arweiniol-partner, yn cynnwys manylion cyswllt e-bost pob athro ym mhob ysgol.
- Ysgolion arweiniol i drefnu'r cyfarfod grŵp cyntaf ar gyfer tymor yr hydref, a gwahodd un aelod o'r tîm ymchwil cyswllt.
- Bydd aelod o'r tîm ymchwil yn cysylltu â'r ysgolion NPEP newydd i drefnu cael mynediad i'n safle Teams NPEP, ac egluro sut i uwchlwytho adroddiadau ar lwyfan PebblePad y CGA.
- Ysgolion yn ystyried mynychu un o'r sesiynau cymorth dewisol ym mis Hydref a Tachwedd.

Gosodwyd targed o recriwtio a chynnal 63 ysgol bartner ar gyfer 2024-25. Gallai hyn fod yn darged heriol i'w fodloni gan fod ysgolion yn adrodd am gapasiti cyfyngedig i fynd i'r afael â gwaith ymholi NPEP oherwydd y pwysau sydd ar ysgolion, a dim ond hyn a hyn o gapasiti staff.

**CYNLLUN BUSNES: PROSIECT ADDYSGEG CENEDLAETHOL**

**Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol**

Mae YCG arweiniol GwE wedi mynychu cyfarfodydd Prosiect Addysgeg Cenedlaethol ar 26/04/2024, 09/05/2024, 07/06/2024, 19/07/2024 a 20/09/2024 gydag Arweinwyr Rhanbarthol i drafod y Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol a ddigwyddodd yn Llandudno ym mis Gorffennaf 2024.

Daeth 37 ysgol i'r diwrnod, yn cynnwys ysgolion uwchradd, cynradd, Arbennig ac UauCD. Roedd 7 athro ychwanegol o ysgolion y rhanbarth yn hwyluso'r diwrnod. Cafodd pob ysgol fewnbwn ar agweddau ar y cwricwlwm, cynnydd ac addysgeg gan Lywodraeth Cymru, Graham Donaldson ac ysgolion rhanbarthol .

rhaglen yn cael ei chynnig i glystyrau o ysgolion. Ers Ebrill 2024 mae 2 glwstwr wedi cwblhau'r hyfforddiant, 3 clwstwr wedi cychwyn yr hyfforddiant a dau glwstwr/ysgol arall wedi ymrwymo i gynnal yr hyfforddiant yn ystod 2024-25.

Cwblhaodd 27 cymhorthydd y rhaglen **Darpar CALU Cylch 8** gyda 27 wedi gwneud cais ar gyfer asesiad statws CALU yn ystod Tymor yr Hydref 2024. Derbyniwyd 50 cais ar gyfer rhaglen Darpar CALU Cylch 9, ac fe fydd 49 yn dechrau ar yr hyfforddiant ym mis Hydref ( 7 cyfrwng Cymraeg a 42 cyfrwng Saesneg).

Mae'r rhaglen **Darpar CALU Cylch 10** wedi cael ei hysbysebu yn y Bwletin ac ar y Dosbarth Google i Gymorthyddion, gyda'r dyddiad cau ar 25/11/2024. Fe fydd y rhaglen yn cychwyn yn Ionawr 2025.

Cynhaliwyd sesiwn diweddaru gorfodol ar gyfer **aseswyr CALU** cyn cynnal asesiadau Cylch 7 a 8, gan uwch sgilio a grymuso CALU ac athrawon sy'n arwain ac yn cefnogi cyd-weithwyr yn eu lleoliadau.

Cynhaliwyd asesiadau Cylch 7 ar gyfer ymgeiswyr gyda 31 yn bodloni y safonau cenedlaethol ar gyfer Statws CALU, sef 100% o'r ymgeiswyr. Sicrhawyd ansawdd a phrosesau asesu drwy sesiynau cymedroli rhanbarthol a chenedlaethol trylwyr a nodwyd bod safon cyffredinol y myfyrdodau yn uwch na'r gorffennol oherwydd safon trafodaethau a rhyngweithio proffesiynol wyneb yn wyneb yn ystod y rhaglen. Mae adborth ffurflenni arfarnu cychwynnol, ac yn dilyn y broses asesu, yn gadarnhaol iawn gyda bron bob un ateb naill ai yn 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf' gyda'r datganiadau.

Cynhaliwyd cyfarfod rhwydwaith rhithiol ar gyfer cymorthyddion y rhanbarth ym mis Mai 2024, ac fe gafwyd cyflwyniad ar strategaethau ymddygiad gan un o'r hwyluswyr LlDGA.

Comisiynwyd Canolfan Dyslecsia Miles, Prifysgol Bangor, i ddarparu hyfforddiant Dyslecsia i 15 o gymorthyddion, a fydd yn arwain at achrediad Statws Ymarferydd Dyslecsia. Cynhelir yr hyfforddiant yn Nhymor yr Hydref a Thymor y Gwanwyn. Cynhaliwyd y diwrnod cychwynnol yng Nghanolfan Dyslecsia Miles ym Mhrifysgol Bangor, gyda gweddill y sesiynau yn cael eu cynnal ym Mryn Eirias.

## CYNLLUN BUSNES: SAFON UWCH A BAGLORIAETH CYMRU

**Darparu cymorth i wella'r dysgu a'r addysgu yng nghyd-destun Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch mewn dosbarthiadau chweched dosbarth.**

**Helpu ysgolion i gael gafael ar adnoddau i helpu efo cyfnodau pontio dysgwyr ac i wneud y defnydd gorau ohonynt.**

- <u>Gweithdy Astudiaethau Busnes a Seicoleg 9/7/24:</u> Cafodd y 5 a ddaeth i'r gweithdy fudd mawr ohono. Mae adborth cadarnhaol yn cyfeirio at weithgareddau dysgu ac addysgu, dulliau ymyrraeth, cynllunio darpariaeth, cynllunio asesu ac enghreifftiau o wersi a rannwyd. Byddai cydweithio pellach â rhagor o ysgolion yn cael ei groesawu i'r dyfodol.
- <u>Digwyddiad Ôl-16 28/6/24:</u> 33 wedi mynychu: digwyddiad diwrnod llawn yng Nghanolfan Fusnes Conwy. Y thema oedd 'Mae dosbarthiadau Chweched Dosbarth yn newid', ac roedd y rhaglen yn cynnwys: 'Atal Hunanladdiad - Papyrus UK; Cefnogi dysgwyr efo trosglwyddo Ôl-18 - Prifysgol Bangor; Cymorth bugeiliol i ddysgwyr ôl-16, gwella presenoldeb a chyfeirio at gefnogaeth allanol; a Cymorth efo trosglwyddo cyn-16, cymorth bugeiliol a chyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau. Roedd pawb a ddaeth i'r digwyddiad o'r farn ei bod yn llawn gwybodaeth ac yn gwerthfawrogi cyflwyniadau gwerthfawr Penaethiaid Chweched Dosbarth y rhanbarth. Roedd cyflwyniad Papyrus hefyd yn rymus iawn, ac roedd ysgolion yn gwerthfawrogi cael gwybod sut i geisio cyngor a chymorth. Rhannodd Prifysgol Bangor wybodaeth a dyddiadau defnyddiol am eu dyddiau pontio/cymorth i fyfyrwyr, ynghyd â dipyn o agoriad llygad i bryderon a heriau myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf yn y Brifysgol.

**Datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu Bagloriaeth Cymru Uwch.**

- <u>Cyfarfod rhwydwaith Bagloriaeth Cymru 13/6:</u> 17 wedi mynychu. Roedd pawb a ddaeth i'r cyfarfod o'r farn ei fod yn ddefnyddiol iawn ac yn gwerthfawrogi cael rhannu syniadau am ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer asesu yng nghyd-destun y cymhwyster newydd. Bydd ysgolion yn parhau i gydweithio a rhannu adnoddau ar y grŵp Teams.

## CYNLLUN BUSNES: PECYN CYMORTH AR GYFER SEFYDLU / GYRFA GYNNAR

**Sefydlu**

Mae'r trefniadau newydd ar gyfer mentora Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) wedi'u gweithredu yn llawn, gan gyd-fynd â threfniadau Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae mentora eisoes wedi'i gryfhau ac mae ANG yn cael

cefnogaeth fwy effeithiol. Yn ôl sgyrsiau cychwynnol efo ANG mewn ysgolion maent wedi setlo yn dda, ac mae'r trefniadau newydd yn gweithio'n dda. Mae dysgu proffesiynol cenedlaethol i ANG eisoes yn mynd rhagddo. Bydd dysgu proffesiynol rhanbarthol yn cychwyn ym mis Tachwedd 2024, sy'n bodloni anghenion penodol athrawon ein rhanbarth ac yn digwydd yn lleol yn ein hawdurdodau lleol. Mae arweinydd ANG GwE yn cydlynu'r dysgu proffesiynol hwn, yn ogystal â threfniadau ar gyfer mentora, ac mae wedi cyfarfod â chyd-weithwyr yn genedlaethol i hwyluso hyn. Mae ANG wrthi'n llunio eu portffolio Sefydlu, yn unol â'r disgwyliadau cenedlaethol newydd. Mae gofyn statudol i gymedroli'r portffolios hyn yn rhanbarthol, cyn cymedroli cenedlaethol yn nhymor yr haf 2024. Mae risg sylweddol na fodlonir y gofyn statudol i gymedroli ANG yn rhanbarthol cyn y cymedroli Cenedlaethol yn nhymor yr haf gan na fydd dull Gyrfa Gynnar rhanbarthol o bosib, nac arweinydd ANG rhanbarthol, ar ôl mis Ebrill 2025.

**Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a dysgu proffesiynol**
Mae dysgu proffesiynol arfaethedig i athrawon Gyrfa Gynnar wedi'i fapio allan i sesiynau ANG ar lefel uwch. Mae'r rhain yn bwrpasol, ac yn benodol i anghenion y rhanbarth, er enghraifft, rheoli lles disgyblion ac ymddygiad heriol, gwella darpariaeth 3-8 a chefnogi athrawon efo datblygu addysgeg adborth. Fodd bynnag, mae nod llawn y llwybr dysgu proffesiynol achrededig, sy'n benodol i'n rhanbarth, yn ansicr bellach oherwydd effaith yr adolygiad haen ganol.

Mae cynlluniau ar gyfer dysgu proffesiynol ar y cyd yn parhau. Mae Bwrdd Rheoli CaBan yn cefnogi'r datblygiad hwn yn llwyr, ac wedi bod yn ystyried ffyrdd o achredu dysgu proffesiynol ar y cyd yn llawn. Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi'u cynnal rhwng GwE a CaBan, gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (Mehefin 2024) i werthuso cryfderau, anghenion presennol ac athrawon y dyfodol. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar effaith bosib syniadau ar gyfer dysgu proffesiynol ar y cyd o fewn rhanbarth partneriaeth CaBan. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd y dull Dysgu Proffesiynol rhanbarthol yn parhau yn y maes hwn. O ganlyniad, mae capasiti dysgu proffesiynol ar y cyd y bartneriaeth bellach yn gyfyngedig. Fodd bynnag, rydym ni'n parhau i gynllunio'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn bosib yn y tymor byr, yn unol â'r cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys 9 aelod staff GwE yn cefnogi myfyrwyr y tymor hwn trwy ddarparu sesiynau rheolaidd ar ystod eang o gynllunio a chynnwys cwricwlwm yn y cynradd a'r uwchradd, yn Gymraeg a Saesneg. Cafwyd presenoldeb llawn yn y sesiynau hyn hyd yma, a derbyniad cadarnhaol iawn.

O dan feini prawf AGA statudol LlC sydd newydd eu cyhoeddi (Medi 2024), mae gofyn am ddull dysgu proffesiynol rhanbarthol ar gyfer athrawon gyrfa gynnar, sy'n sicrhau bod AGA a dysgu proffesiynol ANG yn gydnaws â'i gilydd. Fel y mae ar hyn o bryd, mae risg sylweddol na fodlonir meini prawf achredu statudol y Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn rhanbarth GwE ar ôl Ebrill 2025.

**Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer AGA**
Achredwyd llwybr addysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol cyntaf Cymru yn llwyddiannus gan bartneriaeth CaBan, ac mae'r garfan gyntaf wrthi'n cael hyfforddiant pwrpasol ar ddisgyblion ag ADY ac ar fin mynd allan ar eu lleoliad cyntaf. Mae hyn wedi creu cryn dipyn o gyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r bartneriaeth. Trwy'r cynllun busnes bu staff GwE yn rhan annatod o ddatblygu'r rhaglen (dros ddwy flynedd) a'i hachredu trwy gyfarfodydd efo'r CGA ym mis Ebrill 2024. Fel rhaglen AGA gyntaf Cymru yn y maes hanfodol hwn o angen rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig noddi ymchwil tymor hir i effaith yr athrawon newydd sydd wedi'u huwchsgilio ar addysgeg ADY, a chafwyd cyfarfod gyda staff GwE a CaBan i gychwyn datblygu hyn ym mis Mai 2024. Fodd bynnag, mae risg y bydd rôl GwE yn hyn oll yn dod i ben ym mis Ebrill 2025 cyn gall yr athrawon cyswllt ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) sy'n risg sylweddol i hunan arfarnu ac effaith.

Mae staff GwE yn parhau i fod yn rhan o brosesau sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd ansawdd o fewn partneriaeth CaBan, sy'n helpu i sicrhau bod prosesau hunan arfarnu a gwella yn gadarn. Mae staff GwE yn parhau i roi cefnogaeth lawn i raglenni AGA achrededig y rhanbarth yn CaBan a'r Brifysgol Agored, a hynny trwy gydweithio cadarn, mynychu cyfarfodydd perthnasol a gweithio'n uniongyrchol efo ysgolion arweiniol a rhwydwaith pan fo'n briodol.

Mae recriwtio i raglenni CaBan a'r Brifysgol Agored yn gryf iawn yn 2024-25, yn arbennig yn y sector cyfrwng Cymraeg. CaBan sy'n cynnal unig raglenni AGA cyfrwng Cymraeg Cymru ar hyn o bryd, ac maent yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd cryfder GwE yn mhartneriaeth CaBan mewn adroddiadau CGA yn ddiweddar. Mae'r Athro John Gardner hefyd wedi adolygu Prifysgol Bangor ar draws yr holl gyfadrannau yn ddiweddar, gan adrodd *‘the relationships with local schools and other stakeholders, primarily through CaBan and GwE, are nothing short of outstanding in all aspects: collaborative working and engagement, organisational structure and as a platform for*

*research in schools*.' Mae risg sylweddol y bydd y gwaith rhanbarthol hwn, sy'n cael effaith hynod gadarnhaol ar ysgolion ein rhanbarth ac ar athrawon gyrfa gynnar, yn dod i ben ym mis Ebrill 2025.

**CYNLLUN BUSNES: RHAGLENNI ARWEINYDDIAETH I'R DYFODOL**

O ganlyniad i gyflwyno'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG), y Rhaglen Datblygu Uwch Arweinyddiaeth (RhDUA) a'r Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro yn effeithiol mae arweinwyr ysgolion ar bob lefel yn fwy hyderus ac effeithiol yn ôl ffurflenni arfarnu carfan 23-24. Mae ffenestr ymgeisio ar gyfer carfanau 24-25 y RhDAG a'r RhDUA ar agor. Bydd carfan newydd Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro 2024-26 yn cychwyn yn nhymor yr hydref.

Mae'r cynnwys wedi helpu dealltwriaeth aelodau o'u cyfraniad at ddatblygu system hunan wella a chydweithredol a datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth trwy ddefnyddio y Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd a'r Adnodd Cenedlaethol: Gwerthuso a Gwella yn bwrpasol.

Mae ansawdd a lefel y rhwydweithio a'r ymgysylltu yn ystod y rhaglenni, ac wedyn, wedi gwella o ganlyniad i gyflwyno wyneb yn wyneb a chyfleoedd ychwanegol i drafod a meithrin perthnasau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i drafod eu hymrwymiad i weithredu o'r modiwlau blaenorol.

Mae pawb sydd ar y rhaglenni arweinyddiaeth cenedlaethol yn deall eu rôl arweinyddiaeth o ran gweithredu'r CiG a'r Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn myfyrio'n effeithiol ar eu harferion proffesiynol fel arweinwyr ysgolion yn erbyn y Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol ac yn adnabod y profiadau iddynt eu meithrin yn flaenorol, ond hefyd pa rai sydd angen iddynt eu datblygu i'r dyfodol, yn enwedig ym meysydd cyllid, ymgysylltu â'r gymuned ac arloesi. Mae'r Dasg Profiad Arweinyddiaeth yn hwyluso cyfleoedd i ddatblygu eto y 5 safon yn bwrpasol.

Gall aelodau lunio, gyrru a gwerthuso cynlluniau gwella ysgol gyfan effeithiol gan ddarparu tystiolaeth o effaith eu harferion arweinyddiaeth. Bydd cyflwyno'r Tasgau Profiad Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd 2024 yn dystiolaeth o effaith eu gwaith ar ddeilliannau disgyblion, y ddarpariaeth a'u datblygiad arweinyddiaeth.

Anogwyd pob aelod o garfanau 23-24, ble mae'n briodol, i anelu at y lefel nesaf ar y llwybr arweinyddiaeth.

Mae pob ymarferwr wedi cael gwell dealltwriaeth o'r safonau arweinyddiaeth a sut gall y safonau hynny gefnogi eu datblygiad proffesiynol.

Caiff aelodau'r RhDAG a'r RhDUA gefnogaeth gan rwydwaith effeithiol o hwyluswyr, mentoriaid o fewn ysgol, cymhellwyr arweinyddiaeth, Penaethiaid ac YCG. Hwylusir y cymorth hwn gan y tîm busnes rhanbarthol.

O ganlyniad i'r adolygiad Haen Ganol, nid yw'n glir sut na phwy fydd yn cyflwyno'r rhaglenni pan ddaw'r gwasanaeth rhanbarthol i ben.

Mae'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) wedi'i ailwampio, ac mae'n cael ei gynnal yn genedlaethol yn hytrach na'n rhanbarthol. Unwaith eto, nid yw'n glir sut bydd hyn yn cael effaith ar gynnwys y rhaglenni rhanbarthol i'r dyfodol.

**DIWYGIO**

**Y Cwricwlwm i Gymru -** Cefnogi dealltwriaeth a dulliau gweithredu ysgolion ac UauCD yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru, gan alluogi ymarferwyr i gwblhau ystod o weithgareddau i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harferion.

**CYNLLUN BUSNES: SGILIAU TRAWSGWRICWLAIDD**

**Data Rhanbarthol:**

**3-8**

- Cefnogaeth bwrpasol i ysgolion unigol: 22
- Nifer o ymweliadau (0.5 diwrnod): 62
- Cefnogaeth Clwstwr pwrpasol: 6 clwstwr
- Nifer yr ysgolion: 36
- Gweithdai ar gyfer Athrawon a Chymorthyddion Dysgu sy'n newydd i'r grŵp oedran 3 – 8: 83
- Gweithdy datblygu dealltwriaeth ddofn o'r 5 hyfedredd mathemategol: 265
- Rhwydwaith Tymor yr Haf 3 – 8: Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd trwy'r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg: 371

**Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd Uwchradd Rhanbarthol**

- Nifer yr ysgolion: 41
- Nifer y mynychwyr: 45

**Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Sgiliau Trawsgwricwlaidd Cohort 1 a 2 (Cyfrwng Cymraeg a Saesneg)**

- Nifer ysgolion: 67
- Nifer y mynychwyr: 68

**Cefnogaeth pwrpasol Saesneg Cynradd ac Uwchradd i ysgolion**

- Cynradd – 7
- Uwchradd - 37

**Digidol**

- Wedi cofrestru i fynychu rhwydweithiau digidol a chynnig dysgu proffesiynol: 734
- Wedi cofrestru hyd yma i fynychu cynnig dysgu proffesiynol: 652
- Wedi mynychu rhwydweithiau neu gynnig dysgu proffesiynol hyd yn hyn yn y flwyddyn ariannol: 432
- Cyfanswm DP Codio a Trawsgwricwlaidd ar gyfer sgiliau digidol a gynlluniwyd neu gyflwynwyd: 51
- Cyrsiau wedi'u cwblhau: 37%

**Cynllunio strategol a gwerthuso sgiliau trawsgwricwlaidd ledled y cwricwlwm (ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Arwain mewn ysgolion uwchradd)**

- 32 ysgol uwchradd wedi mynychu
- 2 ysgol arbennig
- 1 UCD

- 44 arweinydd wedi mynychu
- 39 o ysgol uwchradd
- 3 o ysgol arbennig
- 2 o UCD

**CYNLLUN BUSNES: IEITHOEDD RHYNGWLADOL I'R CYNRADD A'R UWCHRADD**

**Data Rhanbarthol:**

- Cwrs uwchsgilio Power Language – cynradd: 60 o ysgolion, 84 o athrawon
- Tanysgrifiadau Power Language: 153 o ysgolion
- Cwrs TELT Y Brifysgol Agored 2024-25: 11 ysgol, 12 athro
- Sgwrs Grŵp Sanako – Hyfforddiant Uwchradd 03/07/2024 ar-lein: 12 ysgol, 15 athro
- Mentora ITM – Recriwtio 24-25: 21 ysgol
- Hyfforddiant trochi Mai 2024 – ysgolion cofrestredig: 22 o ysgolion, 28 o athrawon
- Partneriaeth Cymru-Llydaw: 26 o ysgolion
- Cyfarfodydd Rhwydwaith Sector Uwchradd: 28 ysgol
- Digwyddiadau iaith i ddisgyblion Haf 2024, Prifysgol Bangor:
  - Archarwyr IT 17/06/2024: 106 o ddisgyblion blwyddyn 5, 5 ysgol
  - Diwrnod hyfforddi PLA: 151 o ddisgyblion blwyddyn 8, 11 ysgol

**DIWYGIO**

**Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth -** datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i alluogi ysgolion ac UauCD i ddatblygu gweithwyr addysg myfyriol, ymchwilgar a chydweithredol.

**CYNLLUN BUSNES: DYSGU PROFFESIYNOL, YMHOLI AC YMCHWIL A ARWEINIR GAN YSGOLION (Y PROSIECT YMHOLI PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL)**

**Data Rhanbarthol:**

- Ysgolion arweiniol - 16 ysgol
- Ysgolion partner - 53 ysgol

**CYNLLUN BUSNES: PROSIECT ADDYSGEG CENEDLAETHOL**

**Data Rhanbarthol:**

- Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol: 37
- Camau: 2
- WCLD: 3

| CYNLLUN BUSNES: Y LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION DYSGU |
|---|

**Data Rhanbarthol:**

| | |
|---|---|
| Ymsefydlu | 9 |
| Cymorthyddion wrth eu Gwaith | 159 |
| Darpar CALU Cylch 8 | 27 |
| Darpar CALU Cylch 9 | 49 |
| Asesiadau statws CALU Cylch 7 | 31 |
| Aseswyr CALU | 24 |
| Hyfforddiant Dyslecsia Cohort 2 | 15 |

| CYNLLUN BUSNES: SAFON UWCH A BAGLORIAETH CYMRU |
|---|

**Data Rhanbarthol:**

- Cyfarfod Rhwydwaith Bagloriaeth Cymru 13/6: 17 yn bresennol
- Cynhadledd Ôl-16 28/06/2024: 33 yn bresennol
- Gweithdy Astudiaethau Busnes a Seicoleg 09/07/2024: 5 yn mynychu

| CYNLLUN BUSNES: PECYN CYMORTH AR GYFER SEFYDLU / GYRFA GYNNAR |
|---|

**Data Rhanbarthol:**

- Cyfanswm Anwytho GwE: 230

| CYNLLUN BUSNES: RHAGLENNI ARWEINYDDIAETH I'R DYFODOL |
|---|

**Data Rhanbarthol:**

| | |
|---|---|
| 1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol | 127 |
| 2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinyddiaeth | 117 |
| 3. Rhaglen Genedlaethol i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid mewn Gofal | 34 |